**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

**Dyddiad:** 9 Gorffennaf 2002

**Amser:** 9:30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwr) |
| Janice Gregory | (Llafur) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Val Lloyd | (Llafur) |
| Gwenda Thomas | (Llafur) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| D Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Ron Davies, Pauline Jarman

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi: LEG-17-2002 (min)**
1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2002.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**
2.1 Nid oedd unrhyw faterion i'w nodi.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

LC515 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002

3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.2 Ystyriodd y drafft bwyntiau a nodwyd gan y Cydbwyllgor Offerynnau Statudol ar y rheoliadau cyfatebol yn Lloegr (OS 2001/3739). Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.3 Roedd Rheoliad 4 7A(3)(h) yn cynnwys gwall drafftio. Roedd angen eglurhad pellach ar Reoliad 7D (15)(b).

3.4 Gan fod y rhain yn fân wallau drafftio cytunwyd y dylid eu diwygio o dan RhS22.13 drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Byddai adroddiad y Pwyllgor yn nodi ei fod yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r pwyntiau drafftio hyn.

3.5 Gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cynnwys yn ei adroddiad.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC515 (Adroddiad).

**LC516 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002**

3.7 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Ystyriodd y drafft bwyntiau a nodwyd gan y Cydbwyllgor Offerynnau Statudol ar y rheoliadau cyfatebol yn Lloegr (OS 2001/3742). Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.9 Gwnaeth y Pwyllgor sylw yr oedd o'r farn y dylid ei gynnwys yn ei adroddiad.

3.10 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC516 (Adroddiad).

**LC517 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Atodol Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2002**

3.11 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.12 Ystyriodd y drafft bwyntiau a nodwyd gan y Cydbwyllgor Offerynnau Statudol ar y rheoliadau cyfatebol yn Lloegr (OS 2001/3740). Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.13 Roedd angen hysbysu'r Cynulliad fod craffu manwl ar y testun Cymraeg wedi dangos ei fod yn cynnwys gwallau teipograffyddol a mân wallau drafftio. Roedd hefyd angen gwneud dau o fân

gywiriadau i’r testun Saesneg a byddai’n rhaid newid y dyddiad dod i rym yn y testun Cymraeg a Saesneg.

3.14 Gan fod y rhain yn fân wallau drafftio cytunwyd y dylid eu diwygio o dan RhS22.13 drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

3.15 Nodwyd, er y byddai’r Rheoliadau yn gymwys o hyd yn Lloegr, y byddai’n rhaid eu diwygio eto i Gymru o ganlyniad i ddiddymu Awdurdodau Iechyd yng Nghymru y flwyddyn nesaf.

3.16 Codwyd cwestiwn cyffredinol yngln â’r weithdrefn o ddrafftio offerynnau statudol, o ystyried bod y gorchmynion a osodwyd yn parhau i gynnwys gwallau teipograffyddol. Ymwelodd cynrychiolwyr y Pwyllgor â Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol unwaith o’r blaen ac roedd yr ymweliad hwn yn ddefnyddiol iawn yn eu barn hwy. Cynigiodd y Cadeirydd drefnu ymweliad arall â Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol i ddeall y broses o ddrafftio deddfwriaethol, yng ngoleuni’r pryder hwn. **Gweithredu: Clerc**

3.17 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC517 (Adroddiad).

**LC518 – Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002**

3.18 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.19 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Ystyriodd y drafft bwyntiau a nodwyd gan y Cydbwyllgor Offerynnau Statudol ar y rheoliadau cyfatebol yn Lloegr (OS 2001/3741). Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.20 Gwnaeth y Pwyllgor sylw yr oedd o’r farn y dylid ei gynnwys yn ei adroddiad.

3.21 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC518 (Adroddiad).

**LC519 – Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.22 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflym.

3.23 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.24 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC519 (Adroddiad).

**LC520 – Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.25 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i’r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflym.

3.26 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol

ychwaith.

3.27 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC520 (Adroddiad).

**LC521 – Rheoliadau Hadau (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002**
3.28 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflym.

3.29 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.30 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC521 (Adroddiad).

**LC522 – Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygio) (Cymru) 2002**
3.31 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Gyflym.

3.32 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.33 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC522 (Adroddiad).

**LC523 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) (Cymru) 2002**
3.34 Ni chymerodd Mrs Val Lloyd ran yn nhrafodaeth y rheoliadau hyn oherwydd gwrthdaro buddiannau.

3.35 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.36 Roedd Rheoliad 6(2), Rheoliad 9(4)(a) a Rheoliad 10(2)(b) yn cynnwys diffygion drafftio y byddai'r Pwyllgor yn rhoi adroddiad arnynt. Gwnaethpwyd mân sylw o ran Rheoliad 8(2).

3.37 Gan fod y rhain yn fân wallau drafftio cytunwyd y dylid eu diwygio o dan RhS22.13 drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

**Eitem 4: Gohebiaeth y Pwyllgor**
**Llythyr oddi wrth Edwina Hart AC, Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau dyddiedig 28 Mehefin 2002**
**LC494 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Diwygio) (Cymru) 2002**
4.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau eu bod wedi mynegi pryder yngln ag achos o ddefnydd anghyffredin neu annisgwyl o bwerau galluogi o ran y Rheoliadau hyn. Cytunodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol i roi sylwadau'r Aelodau yn adroddiad drafft y Pwyllgor er mwyn eu cyfeirio at y Gweinidog priodol o dan Reol Sefydlog 11.4. Ymatebodd y Gweinidog gan nodi, ymysg pwyntiau eraill, ei bod

wedi ysgrifennu llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn esbonio’r angen i gyflwyno’r Rheoliadau hyn drwy gyfrwng y weithdrefn weithredol a bod Trefnydd y Cynulliad wedi ysgrifennu yn yr un modd at reolwyr busnes y pleidiau.

4.2 Roedd yr Aelodau yn fodlon ag ateb y Gweinidog ac, yn unol â hynny, nid oedd unrhyw bwyntiau i’w codi.

**Eitem 5: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**
5.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau eu bod wedi derbyn llythyrau yn esbonio’r angen i gyflwyno **Rheoliadau Bwyd (Ffigys, Cnau Cyll a Chnau Pistachio o Dwrci) (Rheolaeth Frys) (Diwygio) (Cymru) 2002** a **Rheoliadau Bwyd (Cnau Daear o Tseina) (Rheolaeth Frys) (Diwygio) (Cymru) 2002** drwy gyfrwng y Weithdrefn Frys a dywedodd y byddai’r Rheoliadau hyn yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Deddfau yr wythnos nesaf.

5.2 Hysbysodd Mr Turnbull y Pwyllgor fod memorandwm cywiriadau wedi ei baratoi’n ddiweddar ar gyfer LC510 – Rheoliadau Difwynwyr mewn Bwyd (Cymru) 2002

o ran y pwyntiau a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor.

5.3 Nodwyd nifer o faterion eraill bellach gan y cyfreithiwr drafftio y mae angen eu cywiro. Fodd bynnag, amlinellodd Mr Turnbull y materion hyn gan wahodd yr Aelodau i gofnodi y byddent yn addas i’w cynnwys mewn memorandwm cywiriadau. Cytunodd yr Aelodau â’r awgrym hwnnw.

5.4 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 16 Gorffennaf 2002.

**Eitem 5: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y cyfarfod nesaf**
Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 12 Mawrth 2002.